Blwch Post 170
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 1WZ
(01970) 628 410

www.newwelshwritingawards.com
www.newwelshreview.com
#newwelshawards

NEW WELSH WRITING AWARDS 2017

Datganiad i'r Wasg
Dydd Iau 4 Mai 2017
Dan Embargo tan 7.30pm, Dydd Iau 4 Mai 2017

MENYWOD YN CYMRYD LLE AMLWG YNG NGHATEGORÏAU NOFELA AC ATGOFION YNG NGWOBRAU YSGRIFENNU LLYFRAU BYR NEW WELSH REVIEW

New Welsh Writing Awards 2017: Cyhoeddi Rhestr Fer Gwobr Prifysgol Aberystwyth am Atgofion a Gwobr AmeriCymru am Nofela

Mae'n bleser gan New Welsh Review, ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth ac AmeriCymru, gyhoeddi dwy restr fer ar gyfer y New Welsh Writing Awards 2017: Gwobr Prifysgol Aberystwyth am Atgofion a Gwobr AmeriCymru am Nofela. Llenorion benywaidd sydd amlycaf yn rhestr fer y ddau gategori, gyda dwy fenyw ymhlith y tri sy'n cystadlu yn y categori Atgofion, a menywod yw pob un ar y restr fer y wobr Nofela. Enillwyd gwobr y Llynedd, Gwobr Prifysgol De Cymru am Ysgrifennu Taith, gan Mandy Sutter gyda Bush Meat, cyfrol a gyhoeddir gan wasgnod y cylchgrawn yr hydref hwn. Yn y cyfamser, gosodwyd enillydd 2015, Woman Who Brings the Rain gan Eluned Gramich, ar restr fer Gwobr Llyfr y Flwyddyn y llynedd. Sefydlwyd y Gwobrau i hyrwyddo cyfrolau byr sy'n llai na 30,000 o eiriau, mewn categorïau cylchol sydd hyd yma wedi cynnwys ysgrifennu am natur, teithio ac atgofion, yn ogystal â'r nofela.

Mae llenorion newydd a sefydledig yng Nghymru, Lloegr a'r Unol Daleithiau yn cystadlu am y gwobrau. Mae'r rhestr fer Atgofion yn cynnwys stori wir am hobo yng Nghanada, cofnod o anorecsia ym Mhrifysgol Rhydychen; a theithio y tu ôl i'r Llen Haearn. Mae'r ceisiadau uchel eu canmoliaeth yn y categori Atgofion yn cynnwys taith ffordd gan ferch yn America i geisio cymodi ei thad a'i mam-gu, cartref gofal i fechgyn yn Ne Affrica gyda phreswylwyr oedd yn cynnwys babŵn, a stori wir am ddadlau a chymodi mewn teulu.

Yn y categori Nofela, ymhlith y themâu canolog mae cam-drin rhywiol a meithrin perthynas amhriodol, ynghyd â grym dinistriol archdeipiau a delfrydau, a dianc rhag cysgod ffigur

tadol. Mae'r ceisiadau uchel eu canmoliaeth yn sôn am gyfunrywioldeb mewn mynachlog yng Nghymru, bywyd fel estronwr yng Nghiwba a hanes cyfareddol bywyd Sylvia Plath ar ffurf ffuglen.

Bu golygydd New Welsh Review Gwen Davies yn beirniadu'r ddau gategori gyda chymorth myfyrwyr o Brifysgol Aberystwyth. Bydd yr awdur Americanaidd-Gymreig David Lloyd nawr yn cyd-ddyfarnu enillydd categori'r Nofela. Mae David yn awdur naw cyfrol gan gynnwys casgliadau barddoniaeth a nofelau, ac mae'n cyfarwyddo'r Rhaglen Ysgrifennu Creadigol yng Ngholeg Le Moyne yn Syracuse, NY. Bydd Gwen Davies, cyfieithydd llenyddol yn ei hamser sbâr, yn penderfynu ar yr atgofion buddugol yn ystod y mis nesaf.

Cynhelir digwyddiad rhestr fer ddydd Iau 4 Mai, 6.30-8pm, yn siop lyfrau Canolfan Celfyddydau Aberystwyth. Bydd yn cynnwys cyfweliad panel â'r awdur sydd ar restr fer categori Atgofion Adam Somerset a'r awdur nofela ar y rhestr fer Nicola Daly gyda'r beirniad Gwen Davies.

Cyhoeddir yr enillwyr mewn digwyddiad arbennig yng Ngŵyl y Gelli ar 1 Mehefin 2017, lle bydd Gwen Davies yn cyhoeddi canlyniad enillwyr yr atgofion a'r nofel, a bydd hefyd yn cyflwyno dehongliad ffilm byr o'r enillwyr, o waith Emily Roberts, sydd wedi graddio o Brifysgol Aberystwyth. Bydd enillydd pob categori'n derbyn gwobr ariannol o £1,000, e-gyhoeddi gan New Welsh Review ar eu gwasgnod New Welsh Rarebyte, a beirniadaeth gadarnhaol gan yr asiant llenyddol blaenllaw Cathryn Summerhayes yn Curtis Brown. Yr ail wobr ym mhob categori yw cwrs preswyl wythnos o hyd yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd yng Ngwynedd, a'r drydedd wobr yw arhosiad dros benwythnos yn Llyfrgell Gladstone yn Sir y Fflint. Bydd y chwe enillydd hefyd yn derbyn tanysgrifiad o flwyddyn i New Welsh Review. Yn ogystal, bydd New Welsh Review yn ystyried cyhoeddi gwaith yr enwebeion a gymeradwyir yn uchel a'r rhai ar y rhestr fer mewn rhifyn o'r cylchgrawn creadigol *New Welsh Reader* yngyhyd â ffi safonol gysylltiedig.

Mae'r Gwobrau ar agor i unrhyw awdur yn y DU ac Iwerddon a'r rheini sydd wedi'u haddysgu yng Nghymru. Roedd Gwobr Nofela AmeriCymru hefyd ar agor i awduron yn UDA a Chanada.

Llongyfarchiadau i'n hawduron ar y rhestr fer a'r rhai sydd wedi derbyn canmoliaeth uchel:

Rhestr fer Gwobr Prifysgol Aberystwyth am Atgofion

Catherine Haines (Charing, Caint) *My Oxford*
Mary Oliver (Newlyn, Cernyw) *The Case*
Adam Somerset (Aberaeron, Ceredigion) *People, Places, Things: A Life with the Cold War*

Canmoliaeth Uchel

Maria Apichella (Bury St. Edmunds, Suffolk) *The Red Circle*
Liz Jones (Aberystwyth, Ceredigion) *On Shifting Sands*
Amanda and Robert Oosthuizen (Eastleigh, Hampshire) *Boystown S.A.*

Rhestr fer Gwobr AmeriCymru am Nofela

Cath Barton (Y Fenni, Sir Fynwy) *The Plankton Collector*
Nicola Daly (Caer, Swydd Gaer) *The Night Where You No Longer Live*
Olivia Gwyne (Newcastle Upon Tyne, Northumberland) *The Seal*

Canmoliaeth Uchel

Rebecca Casson (Treffynnon, Sir y Fflint) *Infirmarian*
Barbara de la Cuesta (Seaside Heights, New Jersey, UDA) *Exiles*
Atar Hadari (Hebden Bridge, Gorllewin Swydd Efrog) *Burning Poets*

Noddir Gwobrau 2017 gan Brifysgol Aberystwyth, noddwr craidd a lletywr New Welsh Review, a chylchgrawn ar-lein a rhwydwaith cymdeithasol yr Unol Daleithiau AmeriCymru. Trefnir y Gwobrau mewn partneriaeth â Curtis Brown, Llyfrgell Gladstone a Chanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd.

I gael rhagor o wybodaeth am y Gwobrau a cheisiadau am gyfweliadau cysylltwch â Jamie Harris marketing@newwelshreview.com neu 07812 804505